

## CYMRAEG (IAITH GYNTAF)

Amser – 1.5 awr

Atebwch ddau gwestiwn, un o Adran A ac un o Adran B

---

### ADRAN A - Gwerthfawrogi Llenyddiaeth

1. Ysgrifennwch werthfawrogiad o naill ai (a) y gerdd neu (b) y darn rhyddiaith isod gan roi sylw manwl i'r cynnwys a'r arddull.

(a)

#### Wnaiff y gwragedd aros ar ôl?

Oedfa:

corlannau ohonom  
yn wynebu rhes o flaenoriaid  
moel, meddylgar;  
meddai gŵr o'i bulpud,  
'Diolch i'r gwragedd fu'n gweini –'  
ie, gweini ger y bedd,  
wylo wrth y groes –

'ac a wnaiff y gwragedd aros ar ôl?'

Ar ôl,  
ar ôl y buom,  
yn dal i aros,  
a gweini,  
a gwenu a bod yn fud,  
boed hi'n ddwy fil o flynyddoedd  
neu boed hi'n ddoe.

Ond pan 'wedir un waith eto  
o'r sedd sy'n rhy fawr i ferched  
wnaiff y merched aros ar ôl  
beth am ddweud gyda'n gilydd,  
ei lafarganu'n salm newydd  
neu ei adrodd fel y pwnc:

*trosodd...*

‘Gwrandewch chi, feistri bach,  
tase Crist yn dod ’nôl heddi

byse fe’n bendant yn gwneud ei de ei hun.’

(b)

Weithiau leiciwn i wybod sut mae o’n gweld y byd. Dwi wedi ceisio dychmygu sut ryden ni’n ymddangos iddo fo. Falla mai trwy ryw len ddŵr y mae o’n gweld y cyfan – fel mae rhywun yn gweld mewn pwll nofio. Siapiau aneglur mewn cwmwl o swigod. A dyna pam y bydd o’n edrych fel ’se fo’n nofio drwy’r amser.

Mae’n anodd gwybod. Dyden ni ddim yn gwbod ac mae’n debyg na fydd o byth yn gallu deud wrthon ni chwaith.

A hefyd, pan fydd o’n cael pwl, basa’n dda gen i wbod pa ofnau sy’n cael eu deffro ynddo fo. Fel y bore ’ma pan aeth un o’r jetiau ’na drosodd reit uwch ein pennau a ninnau’n cerdded yn ôl at y gwerysll. Mi wyddwn i ei fod o’n mynd i gael pwl achos mi welais i y wefus isa’n crynu a’r dyrnau’n dechrau fflapian fel adenydd iâr ac yna daeth y sgrech, yn isel i ddechrau ac yn codi’n uwch ac yn uwch fel tegell, nes bo’chdi am stwffio rhywbeth i’w geg er mwyn rhoi taw arno ac arbed dy glustia, ond fedri di ddim gwneud hynny, na fedri? Rhaid inni jest ddygymod â’r peth. Roedd pobl yn edrych arnon ni’n hurt – neu’n dewis peidio ag edrych o gwbl. Rhyw gyw afanc o beth ydi o iddyn nhw. Rhywbeth sy’n profi i bobl mor gyntefig yden ni. Rheswm arall dros ein hysio ni oddi yma mor fuan ag sy’n bosib.

Ond dydyn nhw ddim yn gwbod pa mor hardd mae’r bychan yn edrych pan fydd o’n cysgu, a welson nhw mo’r olwg o lawenydd ar ei wyneb o pan gafodd o dwtsh â’r oen llywaeth ’na yn y fferm wythnos ddiwetha.

Ond dydi o ddim yn gwneud pethau’n haws i ni. Dim o gwbl, myn uffarn i, ac mae golwg mor flinedig ar Zara erbyn hyn. Mae hi fel blodyn hardd sydd wedi blaguro, gwywo a darfod cyn ei hamser.

Mae’n oer heno. Ddim mor oer ag y basa hi adra yr adeg yma o’r flwyddyn chwaith, ond yn ddigon oer, serch hynny. Mae’r dail yn troi ar yr ychydig goed sydd o gwmpas y lle ’ma a does dim digon o wres yn y gwerysll. Mae Marika yn cysgu rhyngddon ni’n dau bob nos yn ei chôt fawr ac mae Josip yn cael ei gladdu o dan unrhyw beth y medrwn ni gael gafael ynddo fo – cotiau, blancedi, papur newydd.

*trosodd...*

Rwy'n cofio gweld lluniau o bobl yn yr henwlad yn lapio eu traed mewn papur newydd ar ôl y rhyfel. Doeddwn i erioed wedi meddwl y baswn i'n gorfod pacio fy mab fy hun ynddo fo i'w gadw rhag rhewi.

Hyd yn oed pan oeddwn i'n hogyn bach yn byw yn y mynyddoedd a mam yn golchi dillad yn y pistyll, roedd yna ddigon o wres ar yr aelwyd a byddai gynon ni ddillad gwlan a lledr rhag yr oerfel bob amser.

Mi wnaeth rhai o'r hogiau dorri peth o'r coed yn un o'r planigfeydd diwrnod o'r blaen gan fod y cyflenwad glo wedi darfod. Buo 'na helynt y diawl wedyn. Coediwrs, heddlu, swyddogion ymfudo, gweithwyr cymdeithasol. Wnelo dwy goeden, be wnei di?

## **ADRAN B - Defnyddio'r Iaith**

Atebwch naill ai 2 neu 3.

### **2. Cyfieithwch y darn canlynol i Gymraeg llenyddol safonol:**

David Tegfan Davies (1883-1968)

D. T. Davies was born on 27 February 1883 in Capel Bach, a smallholding in Abergwili parish, Carmarthenshire, where he was brought up by his grandparents, Dafydd and Hannah Dafis. It was to them, and the inhabitants of the district of Peniel, that he was indebted for the vivid and vigorous language he spoke, full of words and expressions that are no longer in colloquial use. After leaving school he worked as a farm hand at Rhyd-y-rhaw, Peniel, and became a member of Peniel chapel, where he began to preach in August 1903. On 13 September 1908 he was ordained minister at Seion, Pontypridd. In 1915 he was inducted as minister of Gellimanwydd, Ammanford, where he served for fifty years. He showed great concern about the unemployment and poverty of the 1930s and became chairman of the local Distress Committee.

One of his many interests was astronomy and he became a fellow of the Royal Astronomical Society. He also took an interest in the gypsies and their culture. His published works abound in old Carmarthenshire phrases, old beliefs and rural amusements, and reveal his vivid imagination and talent for story-telling. He travelled much on the Continent, often travelling on cargo ships from Swansea. He also went on a preaching tour of the USA. Davies died on 10 August 1968 and was buried in Gellimanwydd cemetery.

*trosodd...*

**3. Ailysgrifennwch y darn isod gan ffurfioli'r iaith (heb newid yr ystyr) a chywiro'r holl wallau. Yna esboniwch unrhyw ddeg o'r gwallau a danlinellwyd gan ddefnyddio'r termau gramadegol priodol hyd y gellwch.**

Mae'r lyfr newydd ragorol yma gafodd ei chyhoeddi gan y Wasg Prifysgol Cwmeithin yn cynnig gyflwyniad gynhwysfawr i'r hanes bywyd yr peiriannwr enwog Pedr ab Ioryn. Efallai mae fo ddim yn ffigwr mor adnabyddused erbyn nawr ond yn ei chyfnod roedd ab Ioryn ymhlith y peirianwyr mawr y byd. Ganodd ef yn Clynnog Fawr ym mlwyddyn 1864, yn mab i Ioryn Fawr a Martha Lewis. Roedd gynno fo dair frawd a pedwar chwaer ond bu farw dau o'r chwiorydd oddi wrth y Brech Wen pan fuont yn ifanc. Porthmon moch roedd tad Pedr ab Ioryn ac gweithiodd ei fam yn y tafarn lleol. Ni gafodd Pedr lawer o ysgol ond dysgodd ef i ddarllen mewn yr Ysgol Sul. Cafodd ei brentisio'n saer goed a bu'n weithio yn iard gychod ag hefyd yn melin wlân am cyfnod. Yno dechreuodd i gymryd ddiddordeb mewn peiriannau. Dylanwadwyd ef gan syniadau peirianwyr mecanyddol mawr y cyfnod ac wedi tair mlynedd o arbrofi dyfeisiodd fath newydd o olwyn ddŵr, lot yn fwy effeithlon na'r hen rhai yn y felinau gwllân. Yn fuan wedyn penderfynwyd Pedr ab Ioryn fudo o Cymru i Canada ac yn y wlad hwnnw y daeth yn enwog fel peiriannwr. Ond ychydig sylltau oedd ganddo yn ei foced yng nghyrraedd ond ymhen hanner blwyddyn sefydlai ffatri yn Montréal i gynhyrchu ei olwynion dŵr a daethant yn boblogaidd iawn ym melinau coed y wlad eang goediog honno. Daeth yn ddydd cyfoethog a cyfforddus ei fydd a dechreuodd gymryd diddordeb mewn materion gwleidyddol a cymdeithasol. Sgwennai Pedr ab Ioryn i'r wasg yn rheolaidd a chyhoeddwyd dwy gyfrol o'i hareithiau a'r darlithoedd a draddododd i Gymdeithas Cymreigyddion Ottawa. Tua diwedd ei oes dychwelodd i Gymru. Ynghyd a trafod bywyd â gwaith Pedr ab Ioryn mae'r llyfr yma yn cynnwys detholiad mawr o ffotograffau fanwl o felinau hen sy'n cynnwys enghreifftiau o'i waith peirianyddol. Trysor o lyfr yn wir.